

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_

### Astudiaethau Beiblaidd yn Actau'r Apostolion

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



**DARLLENWCH**  
Actau 2: 1- 42



**ADNOD ALLWEDDOL**  
Actau 2: 38

## Astudiaeth 1 Bywyd Pedr – Pentecost

### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Luc 24: 49 • 2 Pedr 3: 18 • Jwdas 20 a 21

Roedd hi'n Ddydd y Pentecost! Ystyr y gair 'Pentecost' yw 'pum deg'. Gŵyl yr Iddewon oedd hi. Roedd yn cael ei chynnal bum deg diwrnod ar ôl Gŵyl y Pasg i gofio am yr amser y cafodd Moses y Gyfraith ar Fynydd Sinai. Ond nid Pentecost cyffredin fyddai hwn, oherwydd ar y Pentecost sy'n cael ei ddisgrifio yn y Darlleniad o'r Beibl, fe ddigwyddodd rhywbeth arbennig iawn.

Ar ôl Iddo atgyfodi, roedd yr Arglwydd Iesu wedi rhoi gorchymyn i'r disgyblion aros yn Jerwsalem i dderbyn rhodd oddi wrth y Tad. Roedd Iesu wedi sôn wrthyn nhw amdani. Ddeugain diwrnod ar ôl yr atgyfodiad, fe gafodd Iesu ei gymryd i'r Nefoedd. Aeth y disgyblion yn ôl i Jerwsalem i ddisgwyl am Ddydd y Pentecost ddeg diwrnod yn ddiweddarach.

**C** Wrth i'r Ysbryd Glân ddisgyn ar y disgyblion ar Ddydd y Pentecost, beth oedden nhw'n ei weld a'i glywed?




**C** Beth wnaethon nhw?

Fe gasglodd tyrfa o'u hamgylch. Roedd y bobl hyn yn dod o wahanol wledydd, ond roedden nhw'n aros yn Jerwsalem yn awr.

**C** Beth glywsen nhw?

**C** Sut oedd y bobl yn teimlo? (Adnodau 6, 7 a 12)

**C** Pa gwestiwn oedden nhw'n ei ofyn i'w gilydd? (Adnod 12)



2

1

1

1

1

Roedd rhai pobl yn chwerthin am eu pennau ac yn eu gwawdio, a dweud bod y disgyblion wedi meddwi. Fe ddechreuodd Pedr siarad â'r dyrfa. Fe atebodd eu gwawd, ac aeth ati i ateb cwestiynau oedd yn cael eu holi o ddifri gan rai o'r dyrfa.

## Mini Groesair


Mae'r Croesair hwn wedi'i seilio ar broffwydoliaeth Joel (Actau 2: 17-21)

### Ar Draws

Bydd y dynion ifanc yn gweld y rhain.

### I lawr

1. Un o'r geiriau sy'n cael ei defnyddio i ddisgrifio Dydd yr Arglwydd (BCN)
2. Bydd hwn yn cael ei droi'n dywyllwch.
3. Dywedodd Duw y byddai'n tywallt Ei ..... ar bob dyn yn y dyddiau olaf.
4. Bydd pob un sy'n galw ar enw'r Arglwydd yn cael ei .....
5. Bydd y lleuad yn cael ei droi yn hwn.



3

Dewch i ni weld nawr beth oedd gan Pedr i'w ddweud am Iesu o Nasareth (adnodau 22-36).

**C** Beth oedd Duw wedi ei wneud ymysg y bobl drwy Iesu?

1

**C** Pwy, meddai Pedr, oedd wedi croeshoelio Iesu?

1

**C** Pwy atgyfododd Iesu oddi wrth y meirw?

1

**C** Yn ôl adnod 33, ble mae Iesu nawr?

1

**C** Sut oedd y bobl yn teimlo ar ôl clywed geiriau Pedr?

1

**C** Pa gwestiwn ofynnodd nhw i Pedr a'r disgyblion eraill?

1

Yn yr Adnod Allweddol, mae Pedr yn egluro'n glir wrthyn nhw beth yr oedd angen iddyn nhw ei wneud.

**C** Pa DDAU beth oedd angen iddyn nhw eu gwneud?

1

Byddai eu pechodau'n cael eu maddau wedyn.

**C** Pa rodd fydden nhw'n ei derbyn o ganlyniad i hynny?

1

Roedd yr eglwys yn cynyddu mewn nifer ddydd ar ôl dydd. Roedd y Cristnogion hyn yn dod i wybod mwy am yr Arglwydd Iesu fel yr oedden nhw'n gwrandao ar yr apostolion yn dysgu, ac yn ymuno yng ngwaith yr eglwys.

**C** Ysgrifennwch dri pheth yr oedd yr eglwys yn eu gwneud o adnod 42.

1)  2)  3)

3

Rhaid i bobl sy'n dilyn Iesu heddiw wneud hyn er mwyn tyfu fel Cristnogion.



DARLLENWCH  
Actau 3: 1-26



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 4: 10

## Astudiaeth 2 Bywyd Pedr – Gwella Dyn Cloff

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 103:1-5 Actau 13: 26-39

### Chwilair

**C** Mae enw pum dyn wedi eu cuddio yn y Chwilair. Maen nhw i'w cael yn y Darlleniad o'r Beibl. Rhowch gylch am bob enw ac yna ysgrifennwch eu henwau yn y blychau isod. Wedyn, o dan bob enw, ysgrifennwch frawddeg am y person hwnnw. Mae rhywbeth am bob un ohonyn nhw yn y Darlleniad o'r Beibl.

A	L	E	U	M	A	S
T	B	J	A	C	O	B
A	J	R	P	E	M	S
L	E	W	A	D	E	E
I	D	D	I	H	R	S
E	C	G	T	R	A	O
P	E	N	A	O	I	M

#### 1. Adnod 1


2

#### 2. Adnod 13


2

#### 3. Adnod 22


2

#### 4. Adnod 24


2

#### 5. Adnod 25


2

Ar yr achlysur hwn fe ddangosodd yr Arglwydd, drwy Ei Apostolion, drugaredd at UN PERSON. Mae gan Dduw gonsyrn dros unigolion o hyd..... Mae'n malio am bob un ohonon ni..... Mae ganddo ots amdanoch chi!


## Mini Groesair

### Ar draws

1. Enw porth y Deml
3. Un o'r pethau yr oedd y dyn yn eu gwneud wrth iddo fynd gyda'r apostolion i gyntedd y Deml ar ôl ei wella.

### I Lawr

2. Metal gwerthfawr oedd yn cael ei ddefnyddio i dalu am bethau.
4. Y rhan o gorff y dyn a gafodd eu gwella.
5. Metel gwerthfawr arall oedd yn cael ei ddefnyddio i dalu am bethau.
6. Ar ôl iddo gael ei wella, roedd y dyn yn \_ \_ \_ \_ Duw.



3

Roedd Pedr ac Ioan yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, yn union lle'r oedd Duw am iddyn nhw fod! Ar eu ffordd i'r Deml i weddio yr oedden nhw, ond y tro hwn roedd gan Dduw rywbeth arall ar eu cyfer. Fe ddefnyddiodd Pedr y cyfle a roddodd Duw iddo:

- i) i ddweud wrth y dyn cloff am Iesu Grist o Nasareth, a'r hyn y medrai Ef ei wneud drosto.
- ii) i rannu efengyl Crist gyda'r rhai oedd yn gwyllo.

### C Pa adnod sy'n dweud bod y dyn cloff wedi cael ei wella ar unwaith?

Yn yr Efengylau mae hanesion am yr Arglwydd Iesu Ei hun yn gwneud gwrthiau, (Marc 2: 10 ac 11) ond yma yn Llyfr yr Actau, yr apostolion sy'n eu gwneud 'yn Ei Enw Ef'.

### C Pa ddwy adnod yn y bennod hon sy'n dweud hyn wrthyn ni?

adnodau

a

### C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sydd hefyd yn esbonio hyn i ni.

Felly, yr Arglwydd Iesu, ac nid yr Apostolion, biau'r clod a'r gogoniant am y wyrth hon. Gallu Duw oedd ar waith yn gwella'r dyn, nid eu gallu nhw, fel y dywedodd Pedr yn glir. Ffydd yn yr Arglwydd Iesu a wnaeth y dyn yn gryf. Yma eto, roedd gan Pedr neges bersonol - heriodd bawb oedd yn bresennol i edifarhau ac i gael eu hachub drwy droi at Dduw.

### C Beth mae Pedr yn ei ddweud fydd yn digwydd i'w pechodau wedyn?

Mae'r Arglwydd am arllwys Ei fendithion ar bawb sy'n troi ato. Pan gafodd iachâd ar ôl oes o ddiodef, y peth naturiol i'r dyn cloff ei wneud oedd moli Duw (adnod 8).

Yn ein dyddiau ni hefyd, mae calonnau pobl sydd wedi'u hachub oddi wrth eu pechodau yn llawn llawenydd ac maen nhw'n barod iawn i roi clod i Dduw, eu Harglwydd a'u Gwardwr.





DARLLENWCH  
Actau 4: 1-31



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 4: 13

## Astudiaeth 3 Bywyd Pedr – O flaen y Sanhedrin

### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Luc 12: 11 a 12

2 Timotheus 1: 8 a 9; 4: 2

1 Pedr 2: 20-24

1. Pedr ac Ioan o flaen y Sanhedrin (adnodau 1-22).

Yn y Darlleniad o'r Beibl, mae Pedr ac Ioan yn dal yn y Deml wrth Borth Solomon yn siarad â'r bobl. Gyda nhw roedd y dyn cloff yr oedd Pedr newydd ei iacháu yn enw Iesu Grist o Nasareth.

**C** Pwy ddaeth at Pedr ac Ioan pan oedden nhw'n siarad â'r bobl?

--	--	--

3

**C** Pam oedden nhw'n flin?


1

Felly fe gawson nhw eu cymryd i'r ddalfa a'u rhoi mewn carchar dros nos. Drannoeth, roedd rhaid iddyn nhw fynd o flaen y Cyngor yn Jerwsalem. Roedd llawer o Iddewon pwysig ar y Cyngor.

**C** Llanwch y bylchau:- Enw'r Archoffeiriad.

--



1

Tri aelod o'i deulu sy'n cael eu henwi.

--	--	--

3

Tri grŵp arall o bobl.


3

Ychydig fisoedd cyn hyn, roedd ar Pedr ormod o ofn sefyll dros Iesu. (Ioan 18: 17, 25, 26) ond yma mae'n dangos pa mor wahanol yw e ar ôl cael yr Ysbryd Glân.

Cyhoeddodd Pedr yn glir pwy yw Iesu Grist (adnodau 8-12) – mor glir nes bod y Cyngor wedi synnu wrth glywed geiriau dewr Pedr ac Ioan. Yn rhannol, roedden nhw'n synnu am nad oedd yr apostolion yn ddynion dysgedig.


**C** Beth mae'r Adnod Allweddol yn ei ddweud yr oedd y Cyngor yn ei wybod am yr apostolion?

--

1

Daeth y Sanhedrin i'r casgliad mai'r ffaith eu bod nhw wedi bod yng nghwmni Iesu oedd yn gyfrifol am y newid yn eu bywydau. Efallai mai person cyffredin ydych chi ac nad oes gennych le pwysig yn y gymdeithas. Ond y peth sy'n cyfri yw hyn: Ydych chi'n adnabod yr Arglwydd Iesu fel eich Gwaredwr chi? Os ydych, mae'r Ysbryd Glân wedi dod i'ch calon, ac fe gewch chi'r geiriau i'w dweud pan fyddwch chi'n cael eich gwawdio oherwydd eich ffydd. Rhaid i Gristnogion wneud safiad dros eu ffydd, yn arbennig yn y cartref a'r ysgol. Ond dydych chi ddim ar eich pen eich hun! Mae'r Ysbryd Glân gyda chi i'ch helpu (Luc 12: 11 a 12).


**C Beth ofynnodd y Cyngor i Pedr ac Ioan?**



2

**C Pa gwestiwn fu'r Cyngor yn drafod ymhlith ei gilydd?**

Roedd y dyn a gafodd ei wella yn brawf fod gwyrth wedi digwydd y diwrnod cynt ac roedd y Sanhedrin yn gwybod na fedren nhw daflu llwch i lygaid y bobl ynglŷn â hyn. Ond yn anffodus, doedd ganddyn nhw ddim diddordeb yn y gwirionedd nac yn y bobl. Doedd ganddyn nhw ddim diddordeb yn neb ond nhw eu hunain, a beth fyddai'n digwydd iddyn nhw pe bai'r newyddion am Iesu'n mynd ar led.




2

**C Beth benderfynon nhw ei wneud?**

1

**C Ysgrifennwch yn eich geiriau eich hunan beth oedd ymateb Pedr ac Ioan i'r gorchymyn.**

1. Yn y bennod hon, mae hanes Ioan a Pedr yn pregethu'r Efengyl, yn gyntaf i'r bobl gyffredin, ac yna i'r Cyngor. Cafodd eu pregethu ddau ymateb gwahanol iawn: ymateb ffydd (adnod 4) a gwrthwynebiad y Cyngor (adnod 18). Beth bynnag, y peth mwyaf arbennig yn y bennod yma yw ymateb y rhai sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu, nid gwrthwynebiad yr Iddewon i'r apostolion.



1

**2. Ymateb y Credinwyr (adnodau 23-31)**

**C Beth wnaeth y credinwyr pan ddywedodd Pedr ac Ioan beth oedd wedi digwydd iddyn nhw?**

Fe ddechreuon nhw drwy roi clod i Dduw fel Crëwr (adnod 24), ac fel Arglwydd nad yw ei gynlluniau byth yn methu (adnod 28). Wnaethon nhw ddim gofyn i Dduw roi stop ar eu gwrthwynebwyr nac am gael eu cadw oddi wrth eu bygythiadau.

**C Eglurwch, yn eich geiriau eich hunan, beth y gofynnodd Pedr ac Ioan i Dduw amdano (adnodau 29 a 30).**

Atebodd Duw ran gyntaf eu gweddi ar unwaith (adnod 31) ac, fel y darllenwn drwy Lyfr yr Actau, fe welwn iddo ateb yr ail ran hefyd. Mae gennym ni Dduw sy'n hoffi ateb gweddiau ei blant.

1



DARLLENWCH  
Actau 12: 1-19



ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Ioan 5:5

## Astudiaeth 4 Bywyd Pedr – Yn y Carchar

### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 4: 8 Luc 11: 9 a 10 Effesiaid 3: 20 a 21

Mae llawer wedi digwydd ers i Pedr ac Ioan sefyll o flaen y Cyngor yn yr astudiaeth ddiwethaf. Mae'r gwrthwynebiad i'r Cristnogion cyntaf yn parhau.

### C I weld beth a ddigwyddodd nesaf, rhowch y brawddegau isod yn y drefn iawn trwy roi'r rhifau 1-10 yn y blychau.

- Trawodd yr angel Pedr yn ei ystlys (rhoi pwniad yn ei ochr)
- Roedd Pedr yn cysgu rhwng dau filwr.
- Syrthiodd y cadwynau oddi ar ei arddyrnau.
- Cymerodd Herod Pedr i'r ddalfa a'i roi yn y carchar.
- Disgleiriodd goleuni yn y gell.
- Deffrodd Pedr.
- Dilynodd Pedr yr angel allan o'r carchar.
- Trefnodd Herod i ladd Iago.
- Gwisgodd Pedr ei wregys a'i sandalau.
- Yn sydyn ymddangosodd angel yno.



5

### C Pam benderfynodd Herod arestio Pedr?


1

I ddechrau, mae'r hanes yn ein dysgu am ffydd ac ymddiriedaeth yn Nuw. Dyma ddyn yn cael ei wyllo gan 16 o filwyr, wedi ei glymu â chadwynau, ac yn disgwyl am y bore pan gâi ei ladd. Eto roedd Pedr yn cysgu mor drwm nes bu'n rhaid i'r angel ei daro er mwyn ei ddeffro! Dim ond dyn yn ymddiried yn Nuw a fedrai gysgu mewn sefyllfa fel yna.

### C Darllenwch Salm 4, adnod 8 a'i hysgrifennu yma.


2

Mae'r Beibl yn dangos neges bwysig yn hanes Pedr fan hyn. Mae'r angel yn torri'r cadwynau ac yn agor drysau wedi'u cloi, ond roedd yn rhaid i Pedr ei wisgo ei hun a chwilio'i ffordd adref. Mae Duw yn gwneud yr amhosibl ond mae'n gadael y gweddill i ni. Ein cyfrifoldeb ni yw gwneud y gorau posibl wrth weithio dros Dduw, ond rhaid ymddiried ynddo Ef am y canlyniadau terfynol.




Mae yma hefyd wers mewn gweddio. Roedd yr eglwys yn gweddio yn daer dros Pedr, ond yn siwr doedden nhw ddim yn disgwyl dihangfa wyrthiol.

**C** Sut ydyn ni'n gwybod hyn? Rhowch ateb llawn yn eich geiriau eich hun.


3

Weithiau pan fyddwn ni'n gweddio, dydyn ni ddim yn disgwyl i Dduw ateb. Mae'n gysur deall bod ateb i weddi yn dibynnu ar ffyddlondeb Duw, nid ein ffydd ni. Mae Duw yn aml yn ateb gweddi mewn ffordd annisgwyl, ac yn rhoi i ni bethau gwell nag yr ydyn ni erioed wedi eu dychmygu.

**CROESAIR**



**Ar Draws**

1. Beth oedd y bobl yn ei wneud yn nhŷ Mair?
2. Mae'r angel yn gadael Pedr yn yr .....
4. Fe adawodd Herod Jwdea i aros yn y lle hwn am ychydig.
5. Mae'r forwyn yn adnabod ..... Pedr.
6. Enw'r forwyn.
9. Roedd porth y ddinas wedi cael ei wneud o hwn.

**I Lawr**

1. Doedd Pedr ddim yn gallu credu beth oedd yn digwydd iddo. Roedd yn meddwl mai gweld ..... yr oedd.
3. Wnaeth y ferch agor y drws ar unwaith?
7. Ym mha lyfr yn y Beibl y mae'r Darlleniad i'w weld?
8. Mae Herod yn chwilio'n ddyfal am Pedr. A ddaeth o hyd iddo?

Roedd Herod yn ddyn caled iawn.  
Ni ddangosodd ddim trugaredd at y gwylwyr.

5

**C** Beth a ddigwyddodd iddyn nhw?

--

1

Roedd wedi lladd lango ar ddechrau'r bennod. Oni bai i Pedr ddianc o'r carchar, fe fyddai yntau, mae'n siwr, wedi ei ladd. Mae'r hanes hwn yn dangos bod gallu Duw yn gryfach na gallu dyn.

Pan ydyn ni'n Gristnogion, fe allwn ni ddibynnu ar yr un gallu i'n helpu ni.

**C** Write out the Key Verse.


3

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)


Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120